

Cynhwysiant Cymdeithasol

CAM 3

- Bydd y therapydd chwarae yn defnyddio dulliau megis TEACCH A PECS er mwyn galluogi'r plentyn ag ASA i gyfathrebu a rhannu eu barn

(Dadds a Conn ,2018)

- Plentyn a rôl ymarferol iawn yn y broses
- Trwy greu proffil un dudalen gall gweithwyr proffesiynol gwneud newidiadau i'r amgylchedd neu i weithgaredd yn union
- Caniatâi'r plentyn i deimlo yn ddio-gel a chyfforddus ym mhob amgylchedd
- Galluogi'r amgylchedd i fod yn un gynhwysol
- Rhoi mynediad llawn i'r plentyn
- Cefnogi cynhwysiant cymdeithasol yn academiaidd ac yn gymdeithasol
- Yn datblygu hyder a hunan-barch y plentyn



Stori Llwyddiannus o CPG

Connor , oed 9



'Mae Connor yn **caru** rhannu ei broffil gyda phawb

- Cynorthwyodd CPG a phroffil un ddadlen ef i **feithrin perthynas** ag oedolion a chyfoedion llai cyfarwydd
- Wedi gwneud Connor yn **ganolog i'r broses** o wneud penderfyniadau
- Mae'r canlyniadau'n **berthnasol iddo ar hyn o bryd**, yn hytrach na gosod targedau wedi'u cysylltu â'i ddatganiad SEN a'r hyn yr ydym ni fel rhieni a gweithwyr proffesiynol yn ei ystyried yn bwysig iddo'

(Sanderson ,2012 ,t.3)

Os ydych yn credu gall ein gwasanaeth ni cynorthwyo eich plentyn chi ,plis cysylltwch â'n tîm trwy :

Ebost : DUPPA@12346.org

Rhif ffôn :

0975638920

Yma i rhoi eich plentyn chi



yn gyntaf

GWASANAETH SYDD YN DARPARU CEFNOGAETH BROFFESIYNOL TRWY BROSES O GYNLLUN PERSON CANOLOG AR GYFER EICH PLENTYN SYDD NEWYDD GAEL DIAGNOSIS O ASA (ANHWYLDER SBECTRWM AWTISTAIDD)

4 Prif Egwyddor

Cynllunio Person Ganolog (CPG)

HAWLIAU

- ♦ Cyd-fynd ar fodel cymdeithasol o anabledd
- ♦ Dylai galluoedd y plentyn, eu hanibyniaeth a'u hangen am gymorth sydd wedi'i deilwra iddynt gymryd blaenoriaeth dros yr ymatebion meddygol (Sanderson, Smith a Lewis, 2011)

DEWIS

- ♦ Canolbwyntio ar gryfderau, gwendidau, anghenion, hoffterau a chas bethau eich plentyn er mwyn cynllunio proffil un dudalen iddynt

(AET, 2012)

CYNHWYSIANT

- ♦ Dechrau gyda'r plentyn ac yn adeiladu fformiwla neu broses o'u cwrpas
- ♦ Sicrhau bydd llais, barn, teimladau a safbwyntiau personol yn cael eu hystyried
- ♦ Galluogi iddynt deimlo wedi'u grymuso ac yn cael eu cynnwys o fewn gymdeithas (Sanderson, 2000)

ANNIBYNIAETH


- ♦ Byddant yn cymryd rhan weithredol yn eu cynllunio trwy ddefnyddio gweithiwr allweddol a therapi chwarae (VPS, 2001)

BETH YW'R GWASANAETH ?

A yw eich plentyn wedi cael diagnosis ASA (anhwylder sbectrwn awtistiaidd) yn ddiweddar ?

Ydych yn poeni bod llais ac anghenion personol eich plentyn yn cael ei anwybyddu ?

Rydym yma er mwyn rhoi eich plentyn chi yn gyntaf



Therapi Chwarae

CAM 1

- ♦ I lawer o blant ag ASA mae chwarae yn un ffordd maent yn mynegi eu hunain (NAS, 2019)
- ♦ Gall therapi chwarae caniatáu iddynt i deimlo'n hamddenol, yn ddiogel ac yn gyfforddus (Smyth, 2013)
- ♦ Pwrpas y therapi chwarae yw helpu eich plentyn i gysylltu gyda'u gweithiwr allweddol er mwyn nodi ei anghenion personol er mwyn creu proffil un dudalen
- ♦ Y gweithiwr allweddol bydd y therapydd chwarae
- ♦ Trwy gydol y therapi yr amcan yw cwrdd a phob un o'r 4 egwyddor CPG



(Davidson, 2015)

Creu proffil un dudalen

CAM 2

- ♦ Mae proffil un dudalen yn arf pwerus sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- ♦ Darparu strwythur ar gyfer cofnodi'r wybodaeth bwysigaf eich plentyn mewn un lle, gan gynnwys: yr hyn y mae eich plentyn yn ei werthfawrogi amdanynt, yr hyn sy'n bwysig iddynt a'r ffordd orau i'w cefnogi
- ♦ Yn achos eich plentyn, a fydd yn cyfarfod ag ystod eang o weithwyr proffesiynol, aml-asiantaeth, bydd y proffil un dudalen hwn yn ffordd effeithiol o sicrhau bod pawb sy'n dod mewn i gysylltiad â'ch plentyn yn cwrdd â'u hanghenion unigol (Erwin a Sanderson, 2018)

